# Bwletin GwE

CYDWEITHIO
DYSGU
LLWYDDO

Rhannwch ein **BWLETIN** â thim staff eich ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n **RHESTR BOSTIO**.

## CYNHADLEDD GwE

06/06/2024 Venue Cymru, Llandudno

WEDI EI GANSLO

## CYNNIG PROFFESIYNOL GWE: EBRILL 2024 - MAWRTH 2025

**Mae fersiwn newydd Cynnig Dysgu Proffesiynol GwE Ebrill 2024 - Mawrth 2025 bellach yn fyw ar ein gwefan.**

Yma cewch gofrestru a gwybodaeth am yr holl ddysgu proffesiynol sydd ar gael i arweinwyr ac ymarferwyr ysgolion.

## NEWYDDION A GWYBODAETH GwE

## YSGOLION ARBENNIG

### Adolygu bwriad a gweithrediad y cwricwlwm a'i effaith mewn lleoliad arbenigol

27/06/2024 | 9:15-15:15 GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn COFRESTRU

Cyfle i edrych ar sail resymegol a bwriad cwricwlwm; adolygu gweithrediad cynigion cwricwlwm unigol; dadansoddi, gwerthuso, adolygu a chynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**Bydd ymarferwyr yn:**

- datblygu eu dealltwriaeth o sut mae cynllunio ac asesu yn gallu dylanwadu ar gynnydd a'i lywio.
- ystyried cyflymder cynnydd dysgwyr yn unol â disgwyliadau athrawon a'u cwricwlwm.

**NI DDARPERIR CINIO** **Am fwy o fanylion, cysylltwch ag Emma Keyworth neu Mike Armiger.**

# YSGOLION ARBENNIG

## Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) mewn sector arbenigol

04/07/2024 | 9:15-15:15 GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn COFRESTRU

Cyfle i adolygu meini prawf y CiG ac ACRh, ystyried beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a chymhleth a sut gall llythrennedd emosiynol gael effaith ar ACRh.

**Bydd ymarferwyr yn:**

- Deall meysydd mandadol ACRh a'r CiG a sut gall y rheiny edrych mewn lleoliad arbenigol.
- Datblygu a gwella'r dull o gyflwyno ACRh effeithiol
- Gwybodus am effaith ACRh ar lythrennedd emosiynol

**NI DDARPERIR CINIO Am fwy o fanylion, cysylltwch ag Emma Keyworth neu Mike Armiger.**

# RHWYDWEITHIAU A CHYFARFODYDD SECTOR UWCHRADD

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhwydwaith Ieithoedd Rhyngwladol** | | 10/06/2024 \| 9:15-15:00 | Ysgol Aberconwy, Conwy | COFRESTRU |
| **Cydlynwyr BAC Uwch** | | 13/06/2024 \| 13:30-15:00 | Bryn Eirias, Bae Colwyn | COFRESTRU |
| **Rhwydwaith Digidol Uwchradd** | CYMRAEG | 17/06/2024 \| 9:30-14:30 | Clwb Pêl-droed, Porthmadog | COFRESTRU |
| **Rhwydwaith Digidol Uwchradd** | CYMRAEG | 18/06/2024 \| 9:30-14:30 | Penrallt, Caernarfon | COFRESTRU |
| **Rhwydwaith Digidol Uwchradd** | DWYIEITHOG | 19/06/2024 \| 9:30-14:30 | Bryn Eirias, Bae Colwyn | COFRESTRU |
| **Rhwydwaith Digidol Uwchradd** | SAESNEG | 20/06/2024 \| 9:30-14:30 | Linden House, Yr Wyddgrug | COFRESTRU |
| **Arweinwyr Rhifedd Uwchradd** | | 27/06/2024 \| 9:00-15:00 | Canolfan Fusnes Conwy | COFRESTRU |
| **Rhwydwaith Penaethiaid 6ed** | | 28/06/2024 \| 9:30-14:30 | Canolfan Fusnes Conwy | COFRESTRU |
| **Rhwydwaith Arweinwyr Llythrennedd** | SAESNEG | 03/07/2024 \| 9:00-15:30 | Linden House, Yr Wyddgrug | COFRESTRU |



# DIGIDOL

## Gŵyl Digi Hwb




Cynhelir yr ŵyl rithiol hon ddydd Llun, 2 Medi rhwng 9:30yb a 2:30yp. Yn ystod y dydd bydd cyfres o weithdai byrion yn cael eu cynnal gan bartneriaid Hwb, Adobe, Apple, Britannica, Common Sense Education, Flip, Google, J2E, Microsoft, Minecraft a Technocamps. Cyfle gwych i uwch sgilio eich holl staff os oes diwrnod hyfforddiant mewn swydd wedi'i drefnu!
Cliciwch yma am fwy o wybodaeth.

## Ewch y Tu Hwnt i'r Cyffredin

Mae Prifysgolion Bangor a Wrecsam, fel rhan o'r cydweithrediad WCLD, wedi bod yn gweithio gydag arbenigwyr rhyngwladol i ddatblygu cynhadledd ymarferol i'ch helpu i ddatblygu profiadau dilys wedi'u cyfoethogi gan dechnoleg yn eich ystafelloedd dosbarth. Mae'r gweithdy hwn wedi'i anelu at addysgwyr plant 3-18 oed ac yn cyflwyno tasgau cydweithredol ac ymarferol. Mae'n cynnwys cyfleoedd i ddefnyddio opsiynau technoleg sylfaenol mewn dull clir a rhwydd ei ddefnyddio, a fydd yn eich ysbrydoli i ddefnyddio technoleg mewn gwahanol ffyrdd yn eich ystafell ddosbarth. Dysgwch sut i wella'ch cwricwlwm trwy ddefnyddio fideo 360, Rhithrealiti (VR), a/neu Ddeallusrwydd Artiffisial (AI). Cliciwch yma am fwy o wybodaeth.

## Newyddlen GwE Digidol

**Cliciwch yma am gopi.**



# Y GYMRAEG

## Cewri Cymru




**MAE'R TRYDYDD ADNODD YNG NGHYFRES CEWRI CYMRU YN FYW!**

Dysgwch fwy am y Gawres Gymraeg sy'n seren gerddorol, Mared Williams, drwy'r adnoddau fideo a llythrennedd sy'n addas ar gyfer disgyblion o'r Meithrin hyd at Flwyddyn 6. Cliciwch yma

## Mwy o Stori'r Iaith

Dyma adnodd addysgol sy'n cefnogi cyfres deledu S4C, 'Stori'r Iaith'. Yn yr adran 'adnoddau', ceir gwybodaeth gefndirol i athrawon am 11 cyfnod yn hanes yr iaith, fideos i sbarduno gwersi, a gweithgareddau amrywiol sy'n cwmpasu pob maes dysgu a phrofiad.


Mae adran y 'llinell amser' yn gartref i adnodd rhyngweithiol sy'n nodi holl gamau hanes yr iaith o'i dechreuad hyd heddiw. Mwynhewch y dysgu a'r dathlu wrth bori drwy adnoddau Mwy o Stori'r Iaith!

Cliciwch yma i gael mynediad

## Hanes Mawr Cymru

Mae hanes Cymru yn llawn pobl ryfeddol a chymeriadau mawr. Dewch ar daith hwyliog gyda Llinos Mai i'w cyfarfod!

PODLEDIADAU




## Pecyn addysg Neges Heddwch ac Ewyllys Da'r Urdd, 2024

Thema'r Neges eleni yw dathlu Deiseb Heddwch Menywod Cymru 1923-24 ac ysbrydoliaeth y ddeiseb honno ar gyfer galw am heddwch heddiw ac i'r dyfodol.

LAWRLWYTHWCH Y PECYN ADDYSG

Urdd

# DYFODOL BYD-EANG: IEITHOEDD RHYNGWLADOL

## Newyddlen Ieithoedd Rhyngwladol GwE: CYNRADD | UWCHRADD

## SECTOR CYNRADD

### Blwyddyn 6 - Cystadleuaeth creu poster Tueddiadau Ieithoedd Cymru

Cystadleuaeth i greu poster ar thema ieithoedd a dysgu ieithoedd sy'n agored i ddisgyblion Blwyddyn 6 yng Nghymru. Gwersi yn Gymraeg a Saesneg gyda syniadau am sut i gyflwyno'r gystadleuaeth i'ch disgyblion. Manylion a chofrestru yma

### Gwersi Almaeneg: cyfres o wersi rhithiol ar gyfer blynyddoedd 5 a 6.

**MEHEFIN-GORFFENNAF**

Cofrestrwch eich dosbarth ar gyfer y gyfres hon o sesiynau blasu rhithiol gydag e-sgol a'r Goethe Institut. Croesewir dosbarthiadau sy'n cynnwys blynyddoedd 5 a 6 i gymryd rhan. Cynhelir sesiynau yn wythnosol o 10/06/2024 tan 01/07/2024 ar MS Teams am 9:30yb. Defnyddiwch y ddolen hon i gofrestru eich dosbarth, erbyn 31/05/2024.

### Cwrs TELT gan y Brifysgol Agored wedi'i ariannu'n llawn 2024-2025

Ym mis Mehefin a Gorffennaf, byddwn yn recriwtio ysgolion ac athrawon sydd â diddordeb mewn cofrestru ar gwrs 2024-25. Ariennir y cwrs yn llawn gan Dyfodol Byd-eang GwE . Am fwy o wybodaeth am y cwrs, bydd y Brifysgol Agored yn cynnal gweminar ar 11/6/24 15.45-16.45. Manylion llawn a chofrestru **yma**.

## SECTOR UWCHRADD

### Tueddiadau Ieithoedd Cymru

Hoffem wahodd eich ysgol i gymryd rhan yn arolwg Tueddiadau Ieithoedd Cymru eleni.
Gofynnodd ***British Council Cymru*** i ***Brifysgol y Frenhines Belfast*** gynnal yr arolwg hwn. Mae'r ymchwil yn darparu persbectif annibynnol o addysgu ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion uwchradd a cholegau ôl-16. Rydym yn awyddus i glywed gan bob ysgol, gan gynnwys y rhai ble mae nifer bach o ddisgyblion yn astudio ieithoedd rhyngwladol.
Ni ddylai cwblhau'r arolwg gymryd mwy na 10 munud. I'w gwblhau erbyn 15/06/2024, ewch i:
https://response.questback.com/queensuniversitybelfast/ysgolionuwchraddgwladol24

# PROSIECTAU YMCHWIL A GWERTHUSO

### Allwch chi wella ein dealltwriaeth o sut mae ysgolion wedi rhoi Cwricwlwm i Gymru ar waith?

Rydym yn chwilio am arweinwyr cwricwlwm mewn ysgolion i'n helpu i ddeall sut mae athrawon wedi datblygu dealltwriaeth gyffredin o addysgeg, a sut mae hyn wedi dylanwadu ar brofiadau dysgu mewn ysgolion.
Cliciwch yma am fwy o wybodaeth.

# LLWYBR DYSGU I GYMORTHYDDION ADDYSGU / LlDGA

## Rhaglen Datblygu Darpar CALU



Mae Cylch 9 y Rhaglen Datblygu Darpar CALU yn cychwyn ym mis Medi 2024.

**Y DYDDIAD CAU yw 13/06/2024.**

**Cliciwch yma** am fwy o wybodaeth am y rhaglen a sut i ymgeisio.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Wendy Williams, Cydlynydd LlDGA.

## Cyfle cyffrous i Gynorthwywyr Addysgu newydd!

Mae'r **Rhaglen Ymsefydlu Cynorthwywyr Addysgu** i unigolion sydd newydd eu penodi i'r swydd. Cyflwynir y rhaglen genedlaethol hon ar lwyfan digidol. Bydd modd cwblhau'r hyfforddiant ar amser sydd yn gyfleus i'r cynorthwywyr ac i'w lleoliad. Am fwy o wybodaeth a manylion sut i gofrestru, **cliciwch yma**.

# NEWYDDION CONSORTIA ADDYSG CYMRU

**Cliciwch yma** i gael eich cyfeirio at wefan Consortia Addysg Cymru sy'n darparu gwybodaeth am ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol trawsranbarthol sydd ar gael i holl staff Cymru.

## Newidiadau i'r Rhaglen Sefydlu Athrawon Newydd Gymhwyso

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi newidiadau sylweddol i'r broses Sefydlu ANG ar gyfer mis Medi 2024.

**Gweler yma'r holl newidiadau**.

## Dysgu Proffesiynol Cwricwlwm i Gymru Trawsranbarthol

Er mwyn helpu pob ysgol a lleoliad ledled Cymru i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru, datblygwyd rhaglen dysgu proffesiynol gynhwysfawr gan y tîm Dysgu Proffesiynol trawsranbarthol.

Mae'r pamffled **hwn** yn cynnwys dyddiadau allweddol, dolenni i'r sesiynau rhithiol a dolenni i'r recordiadau.

## Tegwch mewn Addysg - Dysgu Proffesiynol

**ADDYSGU A DYSGU I GEFNOGI DYSGWYR SY'N AGORED I NIWED A DAN ANFANTAIS**

**Cliciwch ar y ddolen hon** i ddarllen mwy am yr adnoddau a sut gallwch chi fynd ati i'w defnyddio yn y dosbarth.



# NEWYDDION LLYWODRAETH CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Sgwrs Genedlaethol Haf 2024

COFRESTRWCH YMA

**PWRPAS, ADDYSGEG A CHYNNYDD**

Gan adeiladu ar Sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol 2024 yn seiliedig ar Gwricwlwm a Chynnydd, bydd Sgwrs Genedlaethol Haf 2024 yn canolbwyntio ar rôl addysgeg o ran cefnogi ein dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru.

Os ydych chi'n arweinydd, yn athro neu'n gynorthwyydd dosbarth mewn ysgol yng Nghymru, bydd hwn yn gyfle gwerthfawr i rannu syniadau, dysgu gan eraill a magu perthnasoedd a fydd yn cryfhau ein dealltwriaeth gyffredin o'r Cwricwlwm i Gymru.

## Canllawiau Adolygu Datblygiad Proffesiynol

Mae'r canllawiau'n cysoni'r trefniadau â datblygiadau mewn gwella ysgolion a dysgu proffesiynol, a'u nod yw cefnogi'r proffesiwn i wynebu'r heriau presennol a sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial.

Gweler y dolenni canlynol i'r canllawiau a'r astudiaethau achos cysylltiedig.

# GWYBODAETH AC ARWEINIAD GAN ERAILL

## Cynhadledd Arweinyddiaeth Genedlaethol DARPL

20/06/2024 | 9:00-16:30 | Venue Cymru, Llandudno | COFRESTRU

Ydych chi eisiau cymryd rhan mewn trafodaethau dewr, cael cefnogaeth ymarferol ac anogaeth gyda'ch dysgu proffesiynol amrywiaeth a gwrth-hiliaeth?

Os felly, ymunwch â ni yn ein mudiad Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth (DARPL) i gael eich ysbrydoli a'ch ysgogi gan yr Athro Charlotte Williams OBE a Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru.

Manylion llawn a chofrestru.

DARPL

## Cynhadledd e-sgol

04/07/2024 | 12:00 | Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | COFRESTRU

Dyma gyfle i athrawon cynradd, uwchradd ac ymarferwyr addysg ddod ynghŷd i ddysgu mwy am waith e-sgol a phartneriaid. Bydd y Gynhadledd yn cynnwys cyflwyniadau gan siaradwyr o'r byd addysg, bydd yn farchnad i amrywiol sefydliadau hyrwyddo eu gwaith ac fe fydd gweithdai ar bynciau penodol.

Bydd cinio a sgwrsio am 12yp a'r siaradwr cyntaf am 1:30yp, y cyfan yn rhad ac am ddim.

e-sgol